

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS CYMUNEDAU

Dydd Llun, 20 Mawrth 2017

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd P.A. Palmer (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol)

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

K. Thomas - Rheolwr Diogelwch Cymunedol

C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell 72A, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10 a.m. – 10.20 a.m.

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol.

2. RHAGLEN ATAL CAM-DRIN DOMESTIG AR GYFER YSGOLION UWCHRADD

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ar y cyfraniad i'r rhaglen 'Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch' (STAR) sydd i gael ei chyflwyno mewn ysgolion uwchradd yn yr ardal.

Amlinellwyd y ffaith fod mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn flaenoriaeth gan grŵp Cymunedau Teg a Diogel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhoddwyd ystod o ddulliau ar waith gan sefydliadau partner i fynd i'r afael â'r trosedd hwn gan gynnwys atal, darparu cymorth a gwybodaeth a chymryd camau gorfodi yn erbyn troseddwyd. Mae'r rhaglen STAR wedi cael ei nodi fel dull ataliol da, a fyddai'n adeiladu ar y gwaith a wneir mewn ysgolion uwchradd.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol cadarnhawyd fod y sefydliadau partner yn gefnogol i'r rhaglen ac nad oedd yn dyblygu gwaith a oedd eisoes yn cael ei wneud.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cyfraniad o £6,750 tuag at y pecynnau adnoddau, am gost o £13,500, sydd ei angen i gyflawni'r rhaglen STAR. Bydd yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn rhoi swm cyfatebol.

3. GRANT GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG 2017/18 GAN LYWODRAETH CYMRU

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ar ddyrannu'r cyllid er mwyn cefnogi cydgysylltu strategol, darparu Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) a chomisiynu gwasanaeth uniongyrchol.

Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau yng nghanol mis Rhagfyr fod 2017/18 yn cael ei hystyried i fod yn flwyddyn bontio arall, gyda chyllid yn parhau i gael ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol cyn cyflwyno dull ariannu rhanbarthol o fis Ebrill 2018 ymlaen. Yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cyflawni, roedd y Cyngor wedi cadarnhau ei fod yn cynnig defnyddio'r Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig. Roedd hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y

byddai'r un lefel o gyllid yn cael ei derbyn ag yn 2016/17, fel y cynghorwyd gan Lywodraeth Cymru.

Esboniodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol fod rhaid i'r cynnig i barhau gyda'r darparwr gwasanaeth presennol gael ei gymeradwyo trwy adroddiad eithriadau gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith.

Holodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a oedd gan yr ardal y lefel gywir o Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ac esboniwyd bod yna ddiffyg bychan, ond eu bod yn agos i'r nifer a nodwyd. Gofynnwyd am i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth gael ei wirio i sicrhau ei fod yn adlewyrchu hyn yn gywir.

Rhoddwyd amlinelliad o'r trefniadau monitro ar gyfer y prosiectau, a chadarnhawyd fod y prosiectau yn cyflawni canlyniadau da.

PENDERFYNWYD:

- 3.1 nodi cynigion y Cyngor i barhau i ariannu'r ddau brosiect a ariennir ar hyn o bryd, sef rôl y Cydgysylltydd Cam-drin Domestig a'r gwasanaeth Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA). Ceir disgwyl am gadarnhau'r dyraniad ac mae'r cynllun cyflawni yn seiliedig ar fod yr un lefel o gyllid yn parhau sef £112,750.**
- 3.2 parhau â'r darparwr gwasanaeth presennol, Hafan Cymru, ar gyfer y flwyddyn hon, cyn ymgymryd â dull comisiynu rhanbarthol o 2018 ymlaen. Mae'r hyn yn destun adroddiad eithriadau sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith.**

4. COFNOD PENDERFYNIADAU - 16EG TACHWEDD 2016

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16^{eg} Tachwedd 2016 yn gofnod cywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD